



Cwm Taf Morgannwg  
Bwrdd Partneriaeth | Regional  
Rhanbarthol | Partnership  
Board

MAES BLAENORIAETH NIWROAMRYWIAETH:

# Mynediad a Chymorth

Gwella mynediad at wasanaethau a chymorth ar gyfer pobl niwroamrywiol a'u teuluoedd.

Rydyn ni eisiau sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion niwrowahanol yn cael eu cefnogi i fyw bywydau hapus ac iach, a chyflawni eu potensial.



## **BETH SY'N BWYSIG I BOBL NIWROAMRYWIOL A'U TEULUOEDD?**

Mae pobl niwroamrywiol a'u teuluoedd eisiau cael diagnosis, cyngor a chymorth amserol sy'n diwallu'u hanghenion unigol.

Gall pobl niwroamrywiol, eu teuluoedd a'u gofawyr brofi iechyd meddwl a llesiant gwael os nad ydyn nhw'n teimlo eu bod yn cael eu deall neu'u clywed. Maen nhw eisiau teimlo'n gysylltiedig â phobl sydd mewn sefyllfaoedd tebyg, a chael y cymorth cywir i lywio systemau sy'n aml yn gymhleth.

Hoffen nhw pe bai ysgolion, gweithleoedd a chymunedau'n fwy ymwybodol o niwroamrywiaeth, ac yn addasu i ddiwallu anghenion pobl niwroamrywiol er mwyn iddyn nhw allu byw, dysgu a gweithio hyd eithaf eu gallu.

## **BETH FYDDWN NI'N EI WNEUD GYDA'N GILYDD:**

- Adolygu'r gallu a'r galw i ddarparu a chynnal cynaliadwyedd gwasanaethau cymorth priodol i gefnogi pobl niwroamrywiol.
- Lleihau nifer y bobl sy'n aros am asesiad diagnostig.
- Adolygu cymorth cyn ac ar ôl diagnosis.
- Gwella gwasanaethau pontio plant-i-oedolion.
- Cynnal mwy o ddadansoddi er mwyn cynllunio ar gyfer anghenion y boblogaeth sy'n byw yn y rhanbarth.
- Datblygu Bwrdd Strategol ASD i ehangu'r cwmpas i gyflyrau niwrolegol ehangach.

## **PA WAHANIAETH FYDD HYN YN EI WNEUD?**

- Gwell mynediad at gefnogaeth.
- Gostyngiad mewn anghenion cynyddol.



### **DYWEDODD POBL**

Rydyn ni angen cefnogaeth i rieni allu deall sut i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw ar gyfer eu plant... dylai fod mwy o ddiwyddiadau sy'n cynnwys plant ag anghenion ychwanegol fel nad ydyn nhw'n cael eu neilltuo."